Pan Fydd Eich Plentyn yn Marw

Canllaw i Rieni a Gofalwyr

WISH UPON A STAR

NODIADAU

NODIADAU

"Y rhai rydym wedi eu dal yn ein breichiau am ychydig fydd yn ein calonau am byth."

Awdur Anhysbys

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Marwolaethau disgwyliedig	6
Marwolaethau annisgwyl	7
Cyfarfodydd rhwng gweithwyr proffesiynol	8
PRUDiC	9
Adolygu Marwolaeth Plentyn	10
Y crwner a chwest y crwner	11
Archwiliad post mortem a'r patholegydd	12
Cofrestru marwolaeth eich plentyn	13
Pryd gallwch gynnal angladd eich plentyn?	14
Cymorth profedigaeth	15

Cyflwyniad

Bwriad y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofalwyr ar ôl marwolaeth plentyn.

Mae marwolaeth plentyn yn drasiedi i'r teulu a'r gymuned ehangach.
Mae'n bwysig bod pob marwolaeth plentyn, a yw'n ddisgwyliedig neu'n annisgwyl, yn cael ei hadolygu'n ofalus fel ein bod yn gallu dysgu cymaint ag sy'n bosibl, i geisio atal marwolaethau yn y dyfodol, ac i gefnogi teuluoedd, gofalwyr a ffrindiau.

Ar ddiwedd y llyfryn hwn mae rhestr o sefydliadau sy'n cynnig cymorth profedigaeth.

Marwolaethau Disgwyliedig

Os oedd salwch hirdymor neu gyflwr sy'n cyfyngu bywyd ar eich plentyn, ac roedd marwolaeth yn ddisgwyliedig, mae'n debygol y bydd eich teulu a'r tîm sy'n eich cefnogi wedi trefnu 'llwybr gofal' priodol gyda'i gilydd. Gallai hyn gynnwys cynllun gofal argyfwng ar gyfer eich plentyn. Bydd gweithwyr iechyd proffesiynol lleol a phobl broffesiynol eraill fel staff hosbis neu ysbyty yn gweithio gyda chi a'ch teulu i'ch cefnogi.

Mae'n bosibl y bydd rhaid i'r Crwner drefnu archwiliad post mortem. Fel arall, gallwch gofrestru marwolaeth eich plentyn yn gyflym a mynd ymlaen gyda threfniadau'r angladd a'r gwasanaeth coffa.

Bydd gwybodaeth am eich plentyn yn cael ei rhannu â thîm adolygu marwolaeth y plentyn.

Os oedd salwch hirdymor neu gyflwr sy'n cyfyngu bywyd ar eich plentyn, ond nid oeddech yn disgwyl iddo farw ar hyn o bryd, bydd y farwolaeth yn cael ei thrin fel marwolaeth annisgwyl.

Marwolaethau Annisgwyl

Mae marwolaeth annisgwyl yn farwolaeth nad oedd yn ddisgwyliedig yn y 24 awr flaenorol, neu cyn y digwyddiad a achosodd y farwolaeth, er enghraifft gwrthdrawiad traffig ffordd.

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol adrodd pob marwolaeth annisgwyl i'r Crwner a'r heddlu.

Mae marwolaethau annisgwyl plant yn dechrau'r broses
Ymateb Trefniadol i Farwolaethau Annisgwyl (PRUDiC)

Cyfarfodydd Rhwng Gweithwyr Proffesiynol

Yn achos marwolaethau disgwyliedig ac annisgwyl, efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn cwrdd i siarad am eich plentyn, a pham y mae e neu hi wedi marw.

Byddan nhw'n ystyried beth ddigwyddodd i'ch plentyn ac yn adolygu'r gofal a'r cymorth a ddarparwyd. Bydd gweithiwr proffesiynol rydych eisoes wedi'i gwrdd, efallai rhywun roeddech chi'n adnabod cyn marwolaeth eich plentyn, yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi yn ystod y broses hon. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu hoffech rannu unrhyw wybodaeth, dylech siarad â'r gweithiwr proffesiynol hwn. Efallai y bydd angen i chi roi gwybodaeth i'r gweithwyr proffesiynol hefyd oherwydd mae'ch gwybodaeth

Mae'n bwysig bod yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn siarad â'i gilydd i gasglu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am farwolaeth eich plentyn.

PRUDiC

Mae'r broses hon yn nodi sut mae gweithwyr proffesiynol yng Nghymru yn ymateb i farwolaeth annisgwyl plentyn, i wneud yn siŵr bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i anghenion y teulu sy'n galaru.

O dan broses PRUDiC bydd gweithwyr proffesiynol yn cynnal cyfres o gyfarfodydd, fel y disgrifiwyd eisoes, ble byddan nhw'n rhannu gwybodaeth am eich plentyn a'ch teulu. Os bydd unrhyw pryderon diogelu'n cael eu nodi, bydd y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

Yn syth ar ôl marwolaeth eich plentyn a thrwy gydol proses PRUDiC, bydd gweithwyr proffesiynol yn cynnig cymorth i chi a'ch teulu a byddan nhw'n eich cyfeirio at sefydliadau priodol fydd yn gallu rhoi cymorth parhaol yn ystod eich profedigaeth.

Adolygu Marwolaeth Plentyn

Mae'r Rhaglen Adolygu Marwolaeth y Plentyn (CDRP) yn casglu gwybodaeth am bob marwolaeth plentyn yng Nghymru neu blant o Gymru sy'n byw yn rhywle arall. Tynnir yr enwau priod o'r wybodaeth ac fe'i defnyddir gan CDRP i adolygu beth ddigwyddodd ac i weld beth sy'n gallu cael ei ddysgu i atal yr un peth rhag digwydd i blentyn neu berson ifanc arall.

Nid yw adolygiadau yn ymchwiliadau, nid ydynt yn edrych ar bwy a allai fod ar fai neu bwy sydd ar fai am farwolaethau unigol, maen nhw'n canolbwyntio ar atebion ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n bosibl i deuluoedd a gofalwyr fynychu cyfarfodydd adolygu. Mae'r CDRP yn cael gwybodaeth gan bobl broffesiynol, ond os yw teuluoedd a gofalwyr am rannu gwybodaeth, gallan nhw gysylltu â'r CDRP. Weithiau byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am eich teulu i helpu gyda'r adolygiad. Byddan nhw'n gofyn i chi am eich caniatâd ond gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r CDRP.

Ni fydd y CDRP yn adrodd ar achosion unigol, ond, gall teuloedd a gofalwyr ofyn am yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i adolygiad. Gallwch gysylltu â'r CDRP fel a ganlyn:

Gwefan:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/44351

Rhaglen Adolygu Marwolaeth Plentyn
Llawr 1af, Canolfan Henffordd
36 Stryd y Berllan
Abertawe SA1 5AQ Ffôn: 01792 607524

E-bost: ChildDeath.Review@wales.nhs.uk

Y Crwner A Chwest Y Crwner

Mae'r Crwner yn swyddog a benodir gan yr awdurdod lleol i ynchwilio i farwolaethau annisgwyl. Swydd y crwner yw canfod pwy sydd wedi marw a sut, pryd a ble maen nhw wedi marw.

Gallai'r Crwner ofyn am archwiliad post mortem. Os yw achos marwolaeth yn parhau i fod yn ansicr bydd cwest yn cael ei gynnal. Os yw'r Crwner yn penderfynu cynnal cwest byddwch yn cael manylion pryd a ble bydd yn cael ei gynnal. Bydd y cwest yn cael ei agor o fewn ychydig ddiwrnodau i farwolaeth eich plentyn.

Mae mwy o wybodaeth am grwneriaid a chwestau i'w gweld yn y daflen 'Canllaw i Grwneriaid a Chwestau' sydd ar gael yn:-

www.direct.gov.uk/prod_consum_dg/groups/dg_digitalassets/@dg/@en/documents/digitalasset/dg_185904.pdf

neu gallwch ofyn i'ch gweithiwr proffesiynol am gopi.

Archwiliad Post Mortem A'r Patholegydd

Mae archwiliad post mortem, a elwir hefyd yn awtopsi, yn archwiliad ar ôl marwolaeth gan feddyg a elwir yn batholegydd. Bydd archwiliadau post mortem i blant a phobl ifanc yn cael eu cynnal gan batholegydd arbenigol a allai olygu y bydd eich plentyn yn cael ei symud i ysbyty arall.

Os nad yw Crwner yn rhan o'r broses, gall archwiliad post mortem gael ei wneud dim ond gyda chaniatâd rhiant. Dylech gael trafodaeth lawn gyda staff gofal iechyd i wneud y penderfyniad iawn i chi a'ch teulu.

Gallwch ofyn am eich cynrychiolaeth eich hunan yn y post mortem.

Ar ôl yr archwiliad post mortem, ac ar ôl i'r Crwner roi caniatâd, gallwch weld a dal eich plentyn, a phenderfynu ble hoffech i'ch plentyn fod cyn yr angladd. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gael eich plentyn gartref am ychydig. Os yw'ch teulu yn penderfynu ar hyn, gallwch ei drafod â staff yr ysbyty.

Cofrestru Marwolaeth Eich Plentyn

Os ydych yn cael tystysgrif feddygol sy'n dangos achos marwolaeth eich plentyn gan eich meddyg teulu neu feddyg ysbyty gallwch fynd â hi at y Cofrestrydd a chofrestru'r farwolaeth.

Os yw marwolaeth eich plentyn wedi cael ei hadrodd i'r crwner ni allwch gofrestru'r farwolaeth nes bydd y crwner yn rhoi caniatâd. Efallai y bydd y crwner yn penderfynu bod achos y farwolaeth yn glir a gofyn i feddyg roi tystysgrif feddygol i chi yn dangos achos y farwolaeth. Yna gallwch fynd at y Cofrestrydd a chofrestru'r farwolaeth.

Os yw archwiliad post mortem wedi digwydd mae'r crwner yn gyfrifol am anfon y gwaith papur perthnasol at y Cofrestrydd.

Os oes angen cwest ni allwch gofrestru'r farwolaeth tan ar ôl y cwest, ond gall y crwner roi tystysgrif i chi yn cadarnhau bod eich plentyn wedi marw. Pan fydd y cwest wedi gorffen bydd y crwner yn dweud wrth y cofrestrydd beth i'w roi yn y gofrestr.

Ar ôl i chi gofrestru'r farwolaeth gallwch gael tystysgrif marwolaeth.

Pryd Gallwch Gynnal Angladd Eich Plentyn?

Gallwch ddechrau cynllunio'r angladd ar unrhyw adeg ond rhaid cael y dystsgrif marwolaeth neu ffurflen briodol arall gan y Crwner cyn cynnal yr angladd. Efallai yr hoffech drafod dewisiadau posibl â'r trefnydd angladdau o'ch dewis, a chymryd amser i ystyried y math o wasanaeth fyddai'n fwyaf ystyrlon i chi a'ch teulu.

Os oes gennych ofynion crefyddol neu eraill a allai effeithio ar amser angladd eich plentyn, dylech drafod y rhain â staff yr ysbyty. Byddan nhw'n rhoi'r gwybod i'r Crwner a fydd yn ceisio bodloni'ch dymuniadau, er na fydd hyn bob amser yn bosibl.

Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael cymorth gyda chost yr angladd. Mae rhagor o wybodaeth a chyngor i'w gweld yn www.gov.uk/funeral-payments neu'r ganolfan byd gwaith.

Cymorth Profedigaeth

Mae 'Cymorth wrth Law' yn adnodd i bobl sy'n galaru oherwydd hunanladdiad neu farwolaeth anesboniadwy arall.
Mae ar gael yn
www.howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/HelpIsAtHand%28E%29.pdf

www.howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/HelpIsAtHand_CymWeb.pdf
(Cymraeg)

Gall y sefydliadau canlynol gynnig cymorth a chyngor

Bliss
Cymorth, gan gynnwys ar ôl profedigaeth, i deulu baban cynamserol.
www.bliss.org.uk
0500 618140

Rhwydwaith Profedigaeth Plentyndod
Gwybodaeth a chyngor am wasanaethau lleol a chenedlaethol i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n galaru.
www.childhoodbereavementnetwork.org.uk
020 7843 6309

Llinell Gymorth Marwolaeth Plentyn

I unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan farwolaeth plentyn o unrhyw oed o unrhyw achos.

www.childdeathLlinell Gymorth.org.uk

0800 282986

Ar gyfer ffonau symudol:- 0808 800 6019

Cruse

Cruse yw'r elusen profedigaeth fwyaf yn y DU

www.cruse.org.uk

0844 477 9400

RD4U

Mae gan Cruse wefan bwrpasol ar gyfer pobl ifanc gyda'r bwriad o roi cymorth iddyn nhw ar ôl marwolaeth rhywun agos.

www.rd4u.org.uk

Llinell gymorth rhad ac am ddim 0808 808 1677

Crwner EM

www.direct.gov.uk

The Compassionate Friends

Cymorth i rieni, brodyr a chwiorydd a theulu estynedig sy'n galaru

www.tcf.org.uk

Llinell Gymorth 0845 123 2304

The Lullaby Trust
(gynt Y Gronfa Astudio Marwolaethau Ymhlith Babanod)
Cymorth a chyngor i unrhyw un ar ôl marwolaeth sydyn baban
www.lullabytrust.org.uk
0808 802 6868 (Llinell Gymorth rhad ac am ddim)

Road Peace
Yr elusen genedlaethol ar gyfer dioddefwyr damweiniau ffyrdd.
http://www.roadpeace.org/
0845 4500 355 (Llinell Gymorth– cyfradd leol, ar gael Llun-Gwe 9-5)

SANDS
Cymorth i unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan farwolaeth baban
www.uk-sands.org
020 7436 5881 (Llinell Gymorth)

Winston's Wish
Y brif elusen profedigaeth plentyndod.
www.winstonswish.org.uk
08452 03 04 05

MANYLION CYSWLLT LLEOL

Datblygwyd gan:

Grwp Gorchwyl a Gorffen y Bartneriaeth
Dr Lorna Price, Gwasanaeth Diogelu Plant
Beverley Heatman, Tîm Adolygu Marwolaeth Plentyn
Gloria Smith, Gwasanaeth Diogelu Plant
Kathryn Lewis, BILIPABM
Mari Higginson, BILIPABM
Cynrychiolaeth gan Compassionate Friends

Adolygwyd gan:

Rhwydwaith Diogelu Plant GIG Cymru Gyfan

A Ariennir a Gynhyrchwyd Gan

2 WISH UPON A STAR

trustmark
design & print

www.2wishuponastar.org